

Trawsgrifiad fideo o fyfyrddod y mis Caplaniaeth Prifysgol Bangor
John Thompson 23 Tachwedd 2022

Mae'r goleuadau Nadolig ymlaen! Efallai eich bod yn ymateb mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Fy enw i yw John. Fi yw Gweinidog y Bedyddwyr yn Eglwys Penrallt ym Mangor ac rwy'n rhan o dîm Caplaniaeth y Brifysgol.

Felly sut ydych chi'n ymateb i droi'r goleuadau Nadolig ymlaen? Mae'n arwydd bod y Nadolig ar ddod ac i Gristnogion, ein bod ni mewn tymor o aros am y Nadolig o'r enw'r Adfent. Efallai eich bod chi'n aros am y Nadolig hefyd. Efallai eich bod yn edrych ymlaen at ddod at eich gilydd gyda ffrindiau dros yr Ŵyl? Neu efallai eich bod yn edrych ymlaen at dreulio peth amser gyda'r teulu? Neu fe allai fod yn arwydd o ddechrau cyfnod anodd i chi – os ydyw, mae'r tîm Caplaniaeth yma i helpu ac i wrando – felly cysylltwch ag un o'r tîm. Mae ein manylion ar wefan y brifysgol. Neu efallai bod y goleuadau Nadolig yn eich taflu i ychydig o banig am ddyddiad cau traethawd neu pa mor agos yw arholiad? Efallai eich bod yn dymuno y gallem ni fod yn aros ychydig yn hirach am y Nadolig! Neu efallai na allwch chi aros am y Nadolig. Mae'r goleuadau Nadolig yn rhoi gwên ar eich wyneb.

Fel Cristion, un o'r pethau hyfryd am aros am y Nadolig yw ein bod ni yn ystod yr Adfent yn paratoi'n ysbrydol ar gyfer dyfodiad Iesu. Yn y pedwar Sul yn y cyfnod cyn y Nadolig byddwn yn meddwl am stori'r Nadolig a sut mae'n dod â gobaith, heddwch, cariad a llawenydd. Mae'r Nadolig yn ymwneud â sut mae'r pethau hyn yn dod trwy rodd Duw i ni – y baban Iesu. Mae dyfodiad Iesu yn dod â gobaith mawr. Mae Cristnogion yn credu bod y baban hwn a anwyd ar ddydd Nadolig yn fab i Dduw. Daeth i'r ddaear i fyw yn ein plith ac i agor ffordd newydd i Dduw i ni. Mae hyn yn rhoi gobaith mawr i ni. Mae Iesu'n rhoi'r cyfle inni gael dechrau cwbl newydd yn ein perthynas â Duw. Ac mae'n dod â heddwch, cariad a llawenydd. Iesu yw rhodd Duw i'r byd – sy'n ei gwneud hi'n bosibl inni gael tangnefedd dwfn â Duw, i adnabod cariad dwyfol Duw ac i'n calonnau brofi ei lawenydd digyffelyb. Ac yn ystod yr Adfent cofiwn ein bod yn aros i Iesu ddod eto – gan gredu y daw â'r rhain yn berffeithrwydd ac yn gyflawn yn y dyfodol. A gweddio y daw â mwy o'r gobaith, heddwch, cariad a'r llawenydd hwn i'n byd heddiw.

Felly, yn ogystal â gosod eich goleuadau Nadolig ac ymgolli yn eich dathliadau Nadolig, rwy'n gobeithio y byddwn ni i gyd yn canfod gobaith, heddwch, cariad a llawenydd trwy gydol tymor yr Adfent hwn. A pha wahaniaeth y gallem ei wneud pe gallem ni'r rannu'r anrhegion **hyn** gydag eraill hefyd.